University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Caerdydd | Casnewydd | Pontypridd

# EFFEITHIO AR YFORY

## STRATEGAETH 2030 PDC




# NID AMDANOM NI, OND AMDANOCH CHI

**Ym Mhrifysgol De Cymru, ein gweledigaeth yw newid bywydau a'n byd er gwell.**

Gallai hynny deimlo fel uchelgais mawreddog. Ond drwy ein gwaith yn datblygu tanwyddau cynaliadwy, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, gwneud ein byd ffisegol a digidol yn fwy diogel, galluogi arloesedd ac entrepreneuriaeth, a llawer mwy, rydyn ni wir yn chwarae ein rhan. Wrth i ni greu'r genhedlaeth nesaf o athrawon, nyrsys, swyddogion heddlu, gwyddonwyr, peirianwyr, a chyfreithwyr i Gymru, rydyn ni am i bopeth a wnawn helpu i ddatrys yr heriau sy'n wynebu ein cymunedau.

Rydyn ni'n falch o weithio ochr yn ochr â diwydiant, yn paratoi pobl at waith a gyrfaoedd yn y dyfodol a fydd, gobeithio, yn caniatáu i unigolion roi eu doniau ar waith yn llawn. Boed drwy ein haddysgu neu yn ein hymchwil, rydyn ni am gael effaith gadarnhaol y tu hwnt i adeiladau ein campysau. Rydyn ni'n gweithio ar y cyd ag eraill, i sicrhau ein bod yn creu partneriaethau hirdymor ymatebol a buddiol. Drwy gyfleusterau fel Cyfnewidfa PDC, ein Clinig Ceiropracteg, a'r Clinig Cyngor Cyfreithiol, rydyn ni'n ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd ac yn cynnig cefnogaeth werthfawr i'r bobl sydd ei hangen.

Mae'r cyfan a wnawn yn ymwneud â chi – nid ni – a'r hyn sydd ei angen arnoch chi i lwyddo, boed hynny fel unigolion, sefydliadau, neu gymunedau. Rydych chi'n rhanddeiliaid yn y gwaith a wnawn ac fe allwch chi helpu i lywio ein cyfeiriad at y dyfodol. Erbyn 2030, ein gobaith yw na fydd ein campysau yn cael eu hystyried ddim ond fel llefydd lle rydych chi'n mynd i ddysgu, byddan nhw hefyd yn fannau croesawgar ac agored lle mae diwydiannau'n rhyngweithio â myfyrwyr, lle mae gweithwyr proffesiynol yn cwrdd i gydweithio, a lle mae busnesau'n cael eu creu, ac yn ffynnu. Bydd pob cwrs yn cael ei gyd-greu â diwydiant, sy'n golygu y bydd ein graddedigion yn cychwyn yn gwbl barod yn eu proffesiynau, ac yn ychwanegu gwerth ar unwaith i'w busnes, eu diwydiant, a'u rhanbarth.

Fel y person cyntaf yn fy nheulu i fynd i'r brifysgol, gwn am y gwahaniaeth y gall sefydliad fel hwn ei wneud i fywydau. Mae arwain prifysgol sydd â'r pŵer i drawsnewid bywydau cymunedau, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang yn fraint fawr i fi.

**Dr Ben Calvert**
Is-Ganghellor





# Y BRIFYSGOL AR GYFER DE CYMRU

**Ym Mhrifysgol De Cymru, mae ymgysylltu, cydweithio, a gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd y cyfan a wnawn. Rydyn ni'n gweithio i adeiladu dyfodol gwell i'n myfyrwyr, ein partneriaid, a'n cymunedau – yn economaidd, yn gymdeithasol, ac yn ddiwylliannol.**

Wedi'i sefydlu gan ddiwydiant dros 180 o flynyddoedd yn ôl, rydyn ni'n un o brifysgolion mwyaf cyffrous ac uchelgeisiol Prydain. Rydyn ni'n gweithio ar y cyd â busnesau i arloesi a mynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf y mae ein byd yn eu hwynebu, o ynni ac iechyd i ddiogelwch a chynaliadwyedd.

Gyda phortffolio unigryw wedi'i gyd-ddylunio â diwydiant, rydyn ni'n falch o gynhyrchu gweithwyr gofal iechyd, cyfreithwyr, athrawon, a swyddogion heddlu'r dyfodol. Mae ein cwricwlwm yn cael ei greu gyda'n myfyrwyr i sicrhau bod ganddyn nhw'r sgiliau, y wybodaeth, a'r profiad perthnasol i sicrhau'r potensial mwyaf posibl ac y byddan nhw'n cael y cyfleoedd gorau yn y dyfodol.

Rydyn ni'n falch mai ni yw'r brifysgol sy'n ehangu cyfranogiad fwyaf yng Nghymru, gyda bron hanner ein myfyrwyr yn dod o ardaloedd o fewn dau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Rydyn ni wedi ymrwymo at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol, a chefnogi a galluogi ein myfyrwyr i sicrhau'r canlyniadau bywyd gorau posibl, ac rydyn ni'n angerddol dros hynny.

Mae ein lleoliadau'n golygu y gall staff a myfyrwyr fwynhau'r cyfan sydd gan dde Cymru i'w gynnig, gyda champysau yng Nghaerdydd, Casnewydd, a Phontypridd. Rydym hefyd yn darparu ystod o lwybrau astudio cynhwysol, gan gefnogi dysgu gydol oes ac opsiynau hyblyg i'n myfyrwyr.

Mae gennym gymuned fywiog ac amrywiol, gyda myfyrwyr o dros 100 o wledydd. Rydyn ni'n ein herio ein hunain i feddwl a gweithredu'n wahanol drwy fynd i'r afael â stigma a dileu rhwystrau, ac mae ein myfyrwyr a'n cymuned yn ein hysbrydoli i ddatblygu ymdeimlad cyffredin o berthyn.

Rydyn ni'n gaffaeliad allweddol i fusnesau a chymunedau ledled y rhanbarth. Rydyn ni'n cyfrannu £1.1 biliwn at economi'r DU bob blwyddyn, ac yn cefnogi 10,600 o swyddi ledled y DU*. Mae ein gwreiddiau'n ddwfn yn ne Cymru, ond mae ein cyfraniad at yr economi a chymdeithas i'w deimlo ymhell ac agos.

**NI YW'R BRIFYSGOL AR GYFER DE CYMRU, WEDI EIN GYRRU GAN EIN CENHADAETH I NEWID BYWYDAU A'N BYD ER GWELL.**

*2019/20, Biggar Economics

# PDC MEWN RHIFAU

Mae pob
**£1**
o incwm y Brifysgol yn creu
**£5.30**
ar gyfer yr economi ehangach
(Adroddiad Effaith Gymdeithasol ac Economaidd 19/20)

Yn cyfrannu
**£1.1**
biliwn at economi'r DU
(Adroddiad Effaith Gymdeithasol ac Economaidd 19/20)

**1AF**
yng Nghymru a'r
**11EG**
yn y DU am fusnesau cychwynnol graddedigion
(Arolwg Rhyngweithio Busnes a Chymuned AU HESA 2021/22).

**4YDD**
yng Nghymru yn nhabl cynghrair The Guardian 2023

**75%**
boddhad cyffredinol myfyrwyr
(NSS 2022)

**4YDD**
yng Nghymru o ran effaith ymchwil
(REF 2021 – seiliedig ar 4*/3*)

Daeth
**1 o bob 3**
myfyriwr o ardaloedd economaidd-gymdeithasol isaf Cymru a aeth i addysg uwch i PDC
(Adroddiad Effaith Gymdeithasol ac Economaidd 19/20)

**7,500**
o raddedigion bob blwyddyn
(Adroddiad Effaith Gymdeithasol ac Economaidd 19/20)

Dros
**23,000**
fyfyrwyr o fwy na
**100**
o wledydd
(HESA 2021/22)

Dros
**2,700**
o aelodau staff
(HESA 2021/22)



# EDRYCH TUA'R DYFODOL

**Mae ein map ffordd ar gyfer y dyfodol yn hyderus ac uchelgeisiol. Mae ein gweledigaeth yn glir – rydyn ni am newid bywydau a'n byd er gwell.**

Mewn byd sy'n newid yn gyflym, byddwn ni'n galluogi ein myfyrwyr i sicrhau'r llwyddiant mwyaf posibl yn y gweithle a thrawsnewid eu bywydau. Ein gobaith yw y bydd ein myfyrwyr yn wneuthurwyr newid yn eu gyrfaoedd, gyda'r offer sydd eu hangen arnynt i wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau a'r byd ehangach.

Gan weithio ar y cyd â diwydiant, bydd ein hymchwil a'n harloesedd yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau byd-eang mwyaf ac yn helpu i ddarparu atebion i broblemau'r byd go iawn. Byddwn yn ffocysu ein hymdrechion ar fuddsoddi yn ein meysydd cyflymu: trosedd, diogelwch, a chyfiawnder; iechyd a lles; arloesi creadigol; a'r amgylchedd cynaliadwy.

Erbyn 2030 byddwn yn:

- Brifysgol ranbarthol fawr gyda chynnig academaidd llawn amser a rhan amser unigryw sy'n ddeniadol i farchnadoedd cartref a byd-eang
- Darparu profiad rhagorol, cynhwysol, ymgysylltiol i fyfyrwyr
- Sicrhau bod ein myfyrwyr yn cwblhau eu hastudiaethau yn llwyddiannus ac yn sicrhau cyflogaeth yn eu meysydd arbenigedd.
- Ymgysylltu â phartneriaid i sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posibl ar eu gwaith
- Ymrwymo i wella lles y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu drwy weithredu unigol ac ar y cyd
- Darparu cyfleoedd i fyfyrwyr ledled y rhanbarth a'r tu hwnt i gymryd rhan mewn addysg uwch a symud ymlaen i addysg uwch
- Cyflogwr sy'n ymgysylltu ac yn seiliedig ar werthoedd
- Cynaliadwy yn ariannol mewn cyd-destun amgylchedd addysg uwch dynamig

**ERBYN 2030, BYDDWN YN BRIFYSGOL FLAENLLAW YN Y DU, YN CAEL YR EFFAITH GADARNHAOL FWYAF POSIBL AR FYFYRWYR, PARTNERIAID, A CHYMUNEDAU.**



# CYMUNED GROESAWGAR A CHYNHWYSOL

**Rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle gall ein myfyrwyr, cydweithwyr a phartneriaid gydweithio, arloesi a ffynnu. Erbyn 2030, bydd ein cydweithwyr a'n myfyrwyr yn llysgenhadon cyfiawnder cymdeithasol sy'n mynd ymlaen i integreiddio egwyddorion goddefgarwch a thegwch yn eu bywydau a'u cymunedau eu hunain.**

Byddwn yn gyflogwr o ddewis - yn denu, cadw, a datblygu gweithlu talentog ac amrywiol. Byddwn yn cael ein gweld gan ddarpar gydweithwyr fel grym er daioni gyda'r pŵer i newid bywydau. Byddwn yn parhau i fod yn gyflogwr sylweddol yn y rhanbarth, a bydd ein myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i wneud cais am rolau gyda ni ar ôl iddynt gwblhau eu hastudiaethau. Bydd tegwch yn fwriadol - byddwn yn gwrando ar ein myfyrwyr, cydweithwyr a'r gymuned ehangach yn weithredol, gan sicrhau bod popeth a wnawn yn cael ei gyd-gynhyrchu ac yn gydweithredol.

Bydd bod yn rhan o Brifysgol De Cymru yn cynnwys ymdeimlad dwfn o falchder a pherthyn. Bydd ein myfyrwyr a'n cydweithwyr yn teimlo'n rhydd i fod yn nhw eu hunain a byddant yn trin eraill ag urddas a pharch.

Ni fydd trais, bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu ar sail hunaniaeth yn cael ei oddef, a bydd aelodau o'n cymuned yn teimlo'n gyfforddus yn adrodd am achosion o bryder gyda hyder. Byddwn yn sefydliad gwrth-hiliol, gyda safbwynt dim goddefgarwch tuag at unrhyw wahaniaethu hiliol, crefyddol a diwylliannol.

Byddwn yn buddsoddi yn ein partneriaethau a'n cysylltiadau cymunedol, gan ddatblygu a dyfnhau perthnasoedd â sefydliadau tebyg sy'n cael eu gyrru gan werthoedd.

**TRWY WEITHIO GYDA'N GILYDD BYDDWN YN YMESTYN YN EHANGACH AC YN HYRWYDDO CYFLEOEDD I BAWB, GAN HERIO EIN HUNAIN I FOD YN FWY HYGYRCH, CYNHWYSOL A CHYNRYCHIADOL O'R CYMUNEDAU RYDYM YN EU GWASANAETHU.**






# SICRHAU CYFLEOEDD

**Mae ein dull cydweithredol, sydd â'r nod o gyfoethogi profiad, yn galluogi ein myfyrwyr i fod yn bobl sy'n creu newid drwy eu gyrfaoedd a helpu i ddatrys yr heriau sy'n wynebu eu cymunedau a'r byd ehangach. Erbyn 2030, bydd pob myfyriwr yn cymryd rhan weithredol yn eu proses ddysgu. Gallai hyn fod drwy gynghori busnesau neu gymunedau, ymwneud â gwaith asesu i gefnogi datblygiad sefydliadau allanol, neu drwy ddysgu yn ein cyfleusterau ymdrochol o'r radd flaenaf.**

**Dysgu, addysgu, a phrofiad trawsnewidiol i fyfyrwyr**
Bydd ein myfyrwyr yn ymwneud â diwydiant, staff, a myfyrwyr eraill o bob cwr o'r byd drwy fynd y tu hwnt i ffiniau'r darlithfeydd a'r ystafelloedd dosbarth traddodiadol. Byddan nhw'n teimlo eu bod wedi eu hysbrydoli, eu herio, a'u gwobrwyo. Byddan nhw'n dysgu drwy wneud ac yn defnyddio eu profiadau eu hunain i wella'u dysgu. Byddan nhw'n cael eu hysgogi i feddwl am bethau'n wahanol, i weithio ar ddatblygu atebion i broblemau sy'n wynebu'r byd.

**Cynnig academaidd unigryw**
Gyda phortffolio wedi'i gyd-ddylunio â diwydiant, byddwn yn cynhyrchu graddedigion medrus iawn sydd ar y blaen i raddedigion eraill, i ddiwallu anghenion cyflogwyr a chymdeithas. Bydd ein cyrsiau'n cael eu hadnewyddu'n barhaus i sicrhau ein bod ni'n mynd i'r afael â heriau lleol a byd-eang, yn adlewyrchu pwy yw ein myfyrwyr a'r hyn sydd ei angen arnynt i lwyddo.

**Dysgu yn y gweithle a dysgu gydol oes**
Byddwn ni wedi cynyddu'r hyn rydyn ni'n ei gynnig o ran cyfleoedd dysgu estynedig a gwell yn y gweithle, fel prentisiaethau gradd. Bydd gan ein myfyrwyr fwy o gyfleoedd i ennill profiad wrth astudio, a byddwn yn cynorthwyo cyflogwyr i'w helpu i lenwi bylchau sgiliau. Byddwn ni wedi datblygu ystod o gyfleoedd dysgu hyblyg a chyfunol i sicrhau eu bod yn gwbl hygyrch ac yn ymestyn ein cyrhaeddiad o ran y farchnad.

## MESUR LLWYDDIANT

GRADDAU ISRADDEDIG ANRHYDEDD DA – GWELLA CANLYNIADAU I FOD YN UWCH NA CHYFARTALEDD CYNGHRAIR Y PRIFYSGOLION.

CANRAN EIN GRADDEDIGION SY'N CAEL CANLYNIAD CADARNHAOL YN YR AROLWG CANLYNIADAU GRADDEDIGION 15 MIS AR ÔL GRADDIO I FOD AR GYFARTALEDD Y DU, NEU'N UWCH.

PERFFORMIAD Y BRIFYSGOL YNG NGHWESTIWN BODDHAD CYFFREDINOL YR AROLWG CENEDLAETHOL O FYFYRWYR I FOD O FEWN CHWARTEL UCHAF SAU Y DU.





# CAEL EFFAITH

**Yn PDC, mae ymchwil ac arloesi yn fusnes i bawb. Erbyn 2030, bydd ein hymchwil yn fywiog ac yn cael effaith ar y gwaith o ddatrys problemau go iawn sy'n wynebu ein cymdeithas. Bydd ein timau ymchwil amlddisgyblaethol yn cydweithio â diwydiant, cymunedau, a sefydliadau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau.**

**Galluoedd ymchwil sydd ar flaen y gad yn rhyngwladol**
Byddwn ni'n ffocysu ein hymdrechion ar fuddsoddi yn ein meysydd cyflymu: trosedd, diogelwch, a chyfiawnder; iechyd a lles; arloesi creadigol; a'r amgylchedd cynaliadwy. Byddwn ni'n defnyddio ffyrdd newydd ac arloesol o addysgu, wedi'u datblygu drwy harneisio technolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg ac yn sbarduno ein harbenigedd ymchwil yn y meysydd hyn fel bod ein myfyrwyr yn elwa o'r wybodaeth hon yn y cwricwlwm.

**Effaith ymchwil ac arloesi**
Bydd ein gweithgarwch ymchwil yn cael ei gyd-gynllunio a'i gyd-gynhyrchu gyda diwydiant ac wedi'i wreiddio'n gadarn yn ein cwricwla, fel bod ein myfyrwyr yn datrys y problemau pwysig mae cyflogwyr yn eu nodi. Byddwn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'n poblogaeth, gan gynnal ein henw da am gynhyrchu ymchwil gymhwysol sy'n cael effaith.

**Cyfnewid gwybodaeth a sgiliau er budd myfyrwyr a phartneriaid strategol**
Bydd gan tua 90% o'n cydweithwyr gysylltiad uniongyrchol â diwydiant, yn gweithredu fel pont ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a chynhyrchu ac arloesi mwy a chynyddu effaith economaidd. Bydd ein partneriaethau strategol yn ysbrydoli ein myfyrwyr ac yn cefnogi eu entrepreneuriaeth.

## MESUR LLWYDDIANT

**CYFANSWM INCWM BUSNES A RHYNGWEITHIO CYMUNEDOL (AU-BRHC) YN OGYSTAL AG INCWM YMCHWIL I GYNYDDU 10% YN FLYNYDDOL.
MAE HYN YN CYNNWYS YMCHWIL GYDWEITHREDOL, YMGYNGHORIAETH, YMCHWIL CONTRACT, DPP, CYFLEUSTERAU A GWASANAETHAU SY'N GYSYLLTIEDIG AG OFFER, EIDDO DEALLUSOL AC ADFYWIO A DATBLYGU.**






# GWEITHIO I'N CYMUNEDAU

**Rydyn ni'n troi ein hunain yn sefydliad sy'n edrych ymhell y tu hwnt i'n ffiniau. Erbyn 2030, byddwn ni'n cael ein hystyried gan y rhanbarth fel grym sylweddol er lles, yn cael ein cydnabod am drawsnewid bywydau ein myfyrwyr, a'n cymunedau lleol hefyd. Drwy gydweithio â busnes, diwydiant, a'r economi gymdeithasol, byddwn yn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer sefydliadau lleol a'r gymuned ehangach.**

**Addysg Uwch Hygyrch**
Byddwn ni'n parhau i ddileu rhwystrau at addysg uwch, yn ysbrydoli myfyrwyr o bob cefndir i lwyddo, ac i ffynnu hefyd. Bydd ein myfyrwyr i gyd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a byddwn wedi dyfnhau ein cysylltiadau ymhellach gyda phartneriaid addysg bellach i dyfu a chreu cyfleoedd ar gyfer dysgu, swyddi, a chynhwysiant cymdeithasol.

**Cyfrannu at les economaidd a chymdeithasol**
Wedi ymrwymo at wneud y peth iawn, byddwn ni'n gwella lles ein cymunedau drwy feithrin perthynas ag arweinwyr dinesig a sefydliadau lleol, sicrhau'r newid cadarnhaol mwyaf posibl, a gweithredu fel peiriant ar gyfer twf economaidd. Bydd ein campysau'n gweithredu fel angorau yn y rhanbarth, er budd ein partneriaid a'r gymuned leol.

**Sefydliad cysylltiedig a chyfrifol**
Fel y drws blaen at dalent a sgiliau, bydd ein partneriaid strategol yn gweithio'n agos gyda ni i chwilio am gyfleoedd a chyflymu datblygiad yn ein meysydd ymchwil ac arloesi allweddol. Yn arbenigwyr o ran adnabod cryfderau gwahanol ddiwydiannau, byddwn ni'n dyfnhau ein partneriaethau er eu budd nhw ac er ein budd ni ac yn cael ein hystyried yn bartner y gellir ymddiried ynddo. Bydd ein rhwydwaith cyn-fyfyrwyr ffyniannus yn ymgysylltu, yn ysbrydoli ein myfyrwyr presennol, ac yn ein helpu i gyfleu ein diben wrth y boblogaeth ehangach.

## MESUR LLWYDDIANT

**EIN CYFRAN O'R FARCHNAD, YNG NGHYMRU AC O FEWN EIN GRŴP CYSTADLEUWYR, I GYNYDDU O FLWYDDYN I FLWYDDYN.**

**CYFRAN Y MYFYRWYR GRADD GYNTAF ISRADDEDIG LLAWN AMSER SY'N DAL MEWN ADDYSG UWCH FLWYDDYN AR ÔL EU BLWYDDYN DERBYN I FOD YN UWCH NA CHYFARTALEDD CYNGHRAIR Y PRIFYSGOLION.**





# TRAWSNEWID PDC

**Yn PDC, rydyn ni'n cefnogi eich uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol a'ch gyrfa, ac yn buddsoddi ynddyn nhw. Erbyn 2030, bydd ein safleoedd yn fannau lle mae ein myfyrwyr, ein staff, a'n partneriaid yn cael eu hysbrydoli, eu denu, a'u croesawu. Bydd ein prosesau'n symlach, ein hystâd yn fodern ac yn addas at ei diben, ein seilwaith digidol yn well, a hyn oll yn arwain at amgylcheddau gweithio, dysgu, ac addysgu sy'n arwain y sector, wedi'u cyd-greu â'n myfyrwyr a'n staff.**

**Staff talentog ac uchelgeisiol â ffocws**
Bydd ein gweithlu ystwyth, proffesiynol yn parhau i fod yn ymrwymedig at ddyfodol ein myfyrwyr a'r gymuned, yn gweithio gydag ymdeimlad o berthyn a balchder yn eu gwaith, ac yn ymgorffori gwerthoedd craidd ein Prifysgol yn y cyfan a wnânt. Bydd ein mannau a'n systemau gwaith arloesol yn galluogi ein cydweithwyr i weithio'n effeithlon, gan ryddhau amser ac egni ar gyfer y gwaith o helpu ein myfyrwyr i wireddu eu huchelgeisiau.

**Dulliau addas at y dyfodol**
Nid dim ond adeiladau sy'n bwysig, mae pobl hefyd o'r pwys mwyaf. Byddwn ar flaen y gad, yn croesawu newid mewn o'r radd flaenaf a ffyrdd newydd o weithio. Bydd ein hystâd yn cefnogi dysgu ac addysgu hyblyg, hygyrch, cynhwysol, ac arloesol, yn galluogi ein cymuned i gyrraedd ei llawn botensial. Bydd ein campysau'n fannau agored a chroesawgar, â chysylltiad dwfn â'r gymuned leol.

**Cryfder ariannol**
Byddwn yn sefydliad cynaliadwy a all dyfu, gyda throsiant sy'n cynyddu bob blwyddyn. Bydd ein sylfeini ariannol cryf yn parhau i gynnig ystwythder i ni allu darparu ar gyfer ein myfyrwyr ymhell i'r dyfodol ac addasu wrth i'r byd o'n cwmpas newid. Byddwn yn adeiladu ar ein sefyllfa gref ac yn tyfu ac arallgyfeirio ein hincwm i gynhyrchu gwarged y byddwn yn ei ail-fuddsoddi yn ein dyfodol.

## MESUR LLWYDDIANT

**GWARGED FEL CANRAN O'N HINCWM I FOD YN UNOL Â'N RHAGOLYGON ARIANNOL PUM MLYNEDD.**

**CYFANSWM INCWM BUSNES A RHYNGWEITHIO CYMUNEDOL (AU-BRHC) YN OGYSTAL AG INCWM YMCHWIL I GYNYDDU 10% YN FLYNYDDOL. MAE HYN YN CYNNWYS YMCHWIL GYDWEITHREDOL, YMGYNGHORIAETHAU, CONTRACTAU YMCHWIL, DPP, CYFLEUSTERAU A GWASANAETHAU'N GYSYLLTIEDIG AG OFFER, EIDDO DEALLUSOL AC ADFYWIO A DATBLYGU.**

# BYDDWCH YN RHAN O'N HYFORY

**Felly, beth nesaf? Os ydych chi'n rhannu ein cenhadaeth a'n gwerthoedd ac yn credu y gallwch gyfrannu at ein gweledigaeth ar gyfer 2030, rydyn ni am glywed gennych. Yn yr un modd, os ydych chi'n credu y gallwn ni eich helpu chi i gyflawni eich nodau, rydyn ni yma ar eich cyfer chi. Mae PDC yn perthyn i chi, ac rydyn ni am lunio ein dyfodol gyda'n gilydd.**

Rydyn ni'n gymuned o unigolion ymroddedig ac ysbrydoledig sy'n angerddol dros ddarparu cyfleoedd i'r rhai sydd eu hangen. Mae PDC yn lle arbennig – mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio yma yn gwneud hynny oherwydd ymdeimlad dwfn o gymuned, ymrwymiad ar y cyd at gyfiawnder cymdeithasol, ac awydd brwd i helpu eraill i gyrraedd eu llawn botensial.

Rydyn ni wedi dechrau arni'n wych, ond mae gennym lawer o waith i'w wneud o hyd. Rydyn ni am barhau i weithio ar greu a chynnal amgylchedd dysgu a gweithio cynhwysol, lle mae tegwch wedi'i wreiddio ledled y sefydliad. Rydyn ni am adeiladu ar ein gwaith yn helpu cyflogwyr i gael gweithluoedd amrywiol drwy gynnig gyda phiblinellau talentog o raddedigion iddyn nhw. Rydyn ni am barhau i ddileu rhwystrau at addysg uwch ac ysbrydoli myfyrwyr o bob cefndir i lwyddo.

Rydyn ni'n byw ein gwerthoedd, ac rydyn ni bob amser yn chwilio am unigolion a phartneriaid o'r un anian i ymuno â ni. Boed yn rhywun sydd â diddordeb mewn astudio ar un o'n cyrsiau sy'n cael eu harwain gan y diwydiant, neu'n rhywun sydd am ymuno â'n gweithlu talentog, neu os ydych am fynd i bartneriaeth gyda ni i gyflymu datblygiad yn un o'n meysydd ymchwil ac arloesi allweddol, rydyn ni yma, yn barod i'ch croesawu i'n cymuned.

Ein huchelgais yw trawsnewid bywydau pobl yn ein cymuned a'r tu hwnt.

## AWYDD YMUNO Â NI? CYSYLLTWCH.

**decymru.ac.uk**
**southwales.ac.uk/jobs**
**southwales.ac.uk/business-services**

@De_Cymru

Prifysgol De Cymru